# CYNGOR CYMUNED TROEDYRAUR

## CYNGHORAU LLEOL – GWEITHDREFN GYFARFODYDD

### 1.0 Swydd y Cadeirydd

a. Rhaid i bob cyngor yn ei gyfarfod blynyddol ethol cadeirydd.

b. Rhaid i'r cadeirydd, os yw'n bresennol yng nghyfarfod y cyngor, lywyddu. Ar ôl ei ethol, mae'n parhau yn gadeirydd nes penodi ei olynydd hyd yn oed os yw hynny'n golygu gwasanaethu am dros ddeuddeg mis. O fewn blwyddyn ethol, er nad yw'r cadeirydd yn cael ei ailethol i'r cyngor nesaf, mae'n parhau yn gadeirydd nes ethol ei olynydd.

c. Fe allai'r cyngor gael is-gadeirydd, ond nid yw'n ofynnol, sydd yn y swydd nes ar ôl penodi'r cadeirydd sy'n olynu. Yn absenoldeb y cadeirydd a'r is-gadeirydd rhaid i'r cyngor ethol unigolyn i lywyddu dros y cyfarfod penodol hwnnw.

d. Mae gan yr unigolyn sy'n mynd ati i lywyddu ar gyfarfod y cyngor yn absenoldeb y cadeirydd a'r is-gadeirydd holl bwerau a dyletswyddau'r cadeirydd yn ystod y cyfarfod hwnnw.

e. Mae llywyddu dros gyfarfod yn golygu, rheoli cynnal y cyfarfod a hynny yn unol â'r gyfraith a Gorchmynion Sefydlog y cyngor yn unig. Yn benodol rhaid i gadeirydd roi cyfle rhesymol i bob aelod sy'n dymuno cael ei glywed, caniatáu trafodaeth briodol o'r pwnc a gweithredu'n ddiduedd.

f. Ni ellir herio dyfarniad y cadeirydd yng nghyfarfod y cyngor oni bai bod mwyafrif y cyngor yn pleidleisio yn ei erbyn. Gellir herio unrhyw ddyfarniad neu gamau eraill, hyd yn oed os yw'n cael ei dderbyn gan y cyngor, ond dim ond ar ôl y digwyddiad trwy'r Llysoedd.

g. Nid oes unrhyw hawliau eraill gan swydd y cadeirydd. Yn benodol nid oes gan gadeirydd yr hawl ac ni all y cyngor roi'r grym iddo, wneud penderfyniadau neu gymryd camau ar ran y cyngor. Mae ei awdurdod wedi'i gyfyngu i faterion gweithdrefn ac nid yw'n cynyddu nac yn gostwng ei hawliau fel aelod i siarad a phleidleisio ar deilyngdod achos penodol. Serch hynny, rhaid i gadeirydd gydbwyso ei frwdfrydedd dros unrhyw fater penodol â'i ddyletswydd i ymddangos yn ddiduedd, ac yn wir i fod yn ddiduedd.

h. Rhoddir dau bŵer penodol i'r cadeirydd gan y Ddeddf Llywodraeth Leol, 1972 y mae hawl ganddynt i'w defnyddio ond nid yw'n ofynnol:
   - Pleidlais derfynol os ceir pleidlais gyfartal ar unrhyw fater.
   - Mae hyn yn rhoi <u>ail</u> bleidlais i'r cadeirydd; mae hawl ganddo i ddefnyddio'i bleidlais gyntaf (fel aelod o'r cyngor) yn ôl ei ddymuniad hyd yn oed os bydd hyn yn cynhyrchu datglwm yn y bleidlais y gellir ei thorri drwy ddefnyddio'r bleidlais derfynol. Nid oes unrhyw reol gyfreithiol na chynsail cyffredinol sy'n pennu sut y dylai'r cadeirydd ddefnyddio naill ai ei bleidlais gynaf neu'r bleidlais derfynol - er mae synnwyr da yn awgrymu y dylai cadeirydd bwysleisio ei amhleidioldeb trwy sicrhau bod mater ffiniol yn cael ei godi eto am drafodaeth bellach.

i. Mae hawl hefyd gan gadeirydd pwyllgorau ac is-bwyllgorau i bleidlais derfynol, gan ddilyn yr un rheolau, y pŵer i alw cyfarfod o'r cyngor unrhyw bryd.

### 1.1 Swydd y clerc

a. Rhaid i'r cyngor benodi swyddog a fydd yn gyfrifol am faterion ariannol a 'swyddog priodol' i ymgymryd â rhai dyletswyddau.
b. Mae unrhyw swyddog yn weithiwr i'r cyngor; maen nhw'n atebol i'r cyngor ac nid y cadeirydd nac unrhyw grŵp penodol o aelodau. Rhaid iddynt ymgymryd â holl gyfarwyddiadau'r cyngor sydd o fewn eu telerau cyflogaeth ac nid yn groes i'r gyfraith ond ni ellir eu gorchymyn i berfformio gweithred anghyfreithlon. Er enghraifft, os rhoddir cyfarwyddyd iddo wneud taliad anghyfreithlon neu alw cyfarfod o'r cyngor heb rybudd priodol, ei ddyletswydd yw tynnu sylw'r cyngor at unrhyw weithred arfaethedig y maen nhw'n ei ystyried yn anghyfreithlon.

**1.2 Galw'r cyfarfod**

Rhaid i bob cyngor lleol gynnal cyfarfod blynyddol. Gall pob cyngor gynnal cynifer o gyfarfodydd ag y dymunant.

a. Cynhelir cyfarfodydd ar Ddydd Mawrth cyntaf bob mis am 7.30 p.m. yn neuaddau pentref Coedybryn, Rhydlewis a Ffostrasol yn ôl eu trefn.
b. Y clerc fydd yn galw'r cyfarfodydd fel arfer, ond ceir tri eithriad:
   i. ble ceir swydd wag achlysurol yn swydd y cadeirydd, rhaid i'r clerc yn unol â'r Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 alw cyfarfod arbennig;
   ii. gall y cadeirydd alw cyfarfod arbennig;
   iii. gall unrhyw ddau aelod alw cyfarfod arbennig os yw'r cadeirydd yn gwrthod eu cais.

**Iv Hysbysiadau:** Rhaid rhoi hysbysiad cyhoeddus yn rhywle amlwg yn yr ardal erbyn y dydd Mercher blaenorol. Os, serch hynny, y bydd diwrnod y cyfarfod yn newid, e.e. Dydd Mercher yna dylid gosod yr hysbysiadau erbyn y Dydd Iau blaenorol. Rhaid i wŷs o'r cyfarfod wedi'i llofnodi gan y clerc gael ei dosbarthu neu'i phostio i bob aelod o'r cyngor fel yr uchod. Rhaid i'r wŷs nodi'r busnes y cynigir eu bod yn ei drafod mewn ffordd y gall aelodau adnabod y materion y bydd disgwyl iddynt eu trafod.

**1.3 Llunio'r agenda**

a. Fel arfer mae'r agenda yn cael ei lunio gan y clerc ar y cyd â'r cadeirydd, a rhyngddynt mae ganddynt reolaeth ymarferol ond nid llwyr dros y cynnwys.
b. Rhaid cynnwys eitemau sy'n ofynnol yn ôl y gyfraith.
c. Rhaid i'r holl eitemau eraill gael eu disgrifio yn ddigonol.
d. Nid yw 'unrhyw fusnes arall' yn dderbyniol gan nad yw'n rhoi arwydd o'r hyn a allai godi.
e. Nid oes categori 'busnes brys' sydd wedi'i eithrio o'r rheol hon. Rhaid i faterion sy'n syml yn cyrraedd yn rhy hwyr i'w cynnwys ar yr agenda aros tan y cyfarfod nesaf. Os oes yn wirioneddol angen gwneud penderfyniad cyn y cyfarfod nesaf rhaid cynnal cyfarfod arbennig.
f. Os oes eitem yn cael ei hepgor neu ei disgrifio'n annigonol ar yr agenda, fe allai'r cyngor os ydynt yn dymuno, ei thrafod, ond ni allant wneud penderfyniad, hyd yn oed i'w chyfeirio at bwyllgor.
g. Mae hawl gan aelod i godi yn y cyngor unrhyw fater nad yw'n anghyfreithlon.
h. Dylai'r holl eitemau i'w gosod ar yr agenda gael eu harchwilio i weld a oes gan y cyngor bwerau cyfreithiol ac i ystyried goblygiadau ariannol er mwyn gallu, os oes angen, cymryd cyngor proffesiynol.

1.4 **<u>Gorchymyn Sefydlog a chynnal y cyfarfod - Gofynion Statudol Deddf Llywodraeth Leol 1972</u>**

a. Dyddiadau'r cyfarfodydd - Mae'r Ddeddf yn gosod fformiwla i bennu pa bryd y bydd y cyfarfodydd Blynyddol statudol ac unrhyw rai ychwanegol yn cael eu cynnal.
b. Cadeirydd – Yr aelod sy'n llywyddu mewn gwirionedd dros gyfarfod sydd â holl bwerau a dyletswyddau'r Cadeirydd.
c. Cworwm – Tri aelod neu un rhan o dair o nifer cyfan y cyngor, pa bynnag un sydd fwyaf. Mae cworwm yn un rhan o dair o gyfanswm nifer y cyngor, nid yw'r cworwm yn newid oherwydd seddi gweigion, ac yn ail, mae'r un rhan o dair honno yn rhagnodol ac nid isafswm ac ni all y cyngor osod cyfran uwch.

1.5 **<u>Pleidleisio</u>**

a. Bydd pleidleisio trwy ddangos dwylo.
b. Ar gais un aelod, rhaid i glerc gofnodi sut y gwnaeth aelodau bleidleisio ar fater penodol.
c. Pleidlais derfynol y Cadeirydd. Wrth bleidleisio i ethol cadeirydd newydd, rhaid i'r unigolyn sy'n llywyddu fwrw pleidlais derfynol i dorri datglwm. Os nad yw'r unigolyn sy'n llywyddu yn aelod o'r cyngor olynol, yna <u>dim ond</u> pleidlais derfynol sydd ganddo a dim pleidlais wreiddiol.

1.6 **<u>Trefn Busnes</u>**

a. Ym mhob cyfarfod blynyddol, rhaid mai'r busnes cyntaf yw ethol cadeirydd. Gan na all y cadeirydd weithredu fel hynny hyd oni y bydd wedi derbyn y swydd, yr ail fusnes fydd gwneud datganiad i dderbyn y swydd.
b. O fewn blwyddyn etholiad rhaid i'r cyngor lanw trwy gyfethol unrhyw swyddi gweigion.
c. Mewn unrhyw gyfarfod ble nad yw'r cadeirydd na'r is-gadeirydd yn bresennol y busnes cyntaf fydd penodi cadeirydd i'r cyfarfod.
   Fel arfer bydd datganiadau i dderbyn y swydd yn cael eu gwneud yng nghyfarfod cyntaf y cyngor newydd neu pan fydd aelod newydd yn mynychu am y tro cyntaf. Gallai'r cyngor gytuno i dderbyn datganiad ar ddyddiad diweddarach, penodol ond ni all cadeirydd neu aelod weithredu fel hynny hyd nes y bydd datganiad wedi'i wneud.

1.7 **<u>Cofnodion</u>**

a. Mae'r Ddeddf yn gofyn i'r cadeirydd gymeradwyo'r cofnodion 'fel cofnod cywir' a dylai trafodaeth ar yr eitem hon gael ei chyfyngu yn gadarn i ystyried a yw'r cofnodion yn cynrychioli'n gywir yr hyn a ddigwyddodd yn y cyfarfod blaenorol.
b. Dylai 'materion sy'n codi o'r cofnodion' fod yn eitem ar wahân a'i nodi ar yr agenda.
c. Y cofnodion i'w cymeradwyo yw cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd diwethaf. Gan hynny rhaid i gofnodion unrhyw gyfarfod, boed yn flynyddol, yn arbennig neu'n gyffredin gael eu cyflwyno yng nghyfarfod nesaf y cyngor.
d. Busnes statudol: delio gydag unrhyw faterion y mae'r gyfraith yn ei gwneud hi'n ofynnol ymdrin â hwy.
e. Mae hawl gan y cyhoedd, yn ôl y gyfraith, i fynychu pob cyfarfod o'r cyngor a'i bwyllgorau oni bai bod y cyngor (neu bwyllgor) yn pasio cynnig i eithrio'r cyhoedd o bob cyfarfod neu hyd yn oed gyfarfod penodol. Ni ddylent basio'r cynnig, oni bai, ar ôl ystyriaeth, eu bod o'r farn y dylid trafod eitem benodol, er lles y cyhoedd, yn breifat. Lles y cyhoedd sy'n rhaid ei ystyried, ac nid enw da'r cyngor neu bryderon personol yr aelodau.

f. Rhaid i aelod o'r cyhoedd sy'n dymuno annerch y cyngor ar eitem nad yw ar yr agenda gyflwyno cais ysgrifenedig yn amlinellu'r pwyntiau i'w trafod wedyn bydd y cyngor yn eu trafod yng nghyfarfod posibl nesaf y cyngor er mwyn ystyried rhoi'r eitem ar yr agenda. Os yw'n cael ei gymeradwyo, bydd yr eitem yn cael ei osod ar agenda'r mis canlynol.

g. Rhaid i aelod o'r cyhoedd sy'n dymuno annerch y cyngor ar eitem ar yr agenda gadw at yr amodau a ganlyn:
   - Un cynrychiolydd enwebedig i annerch o blaid neu yn erbyn cynnig
   - Ni all unrhyw gynrychiolydd drafod am fwy na 5 munud ar un eitem agenda unigol
   - Mae hawl gan y cadeirydd i roi stop ar unrhyw drafodaeth

h. Os yw aelod o'r cyhoedd eisiau cyfleusterau cyfieithu, rhaid rhoi gwybod i'r clerc o leiaf 7 diwrnod cyn dyddiad y cyfarfod.

## 1.8 Eitemau ar gyfer trafodaeth gyfrinachol

a. Mae eitemau sydd wirioneddol yn cyfiawnhau trafodaeth gyfrinachol yn brin ond yn eu plith y mae achosion disgyblaeth, trafod cytundebau, cyngor cyfreithiol ar faterion cynhennus. Hyd yn oed os yw'r drafodaeth yn gyfrinachol iawn, nid yw'n dilyn yn awtomatig bod y penderfyniad yn gyfrinachol. Os yw'r cyngor yn diswyddo swyddog, dylai'r ffaith honno, er nid y rhesymau dros y penderfyniad, gael ei gwneud yn gyhoeddus. Unwaith y mae cytundeb wedi'i drafod dylid rhyddhau enw'r contractwr llwyddiannus er gallai telerau'r cytundeb barhau yn sensitif yn fasnachol.
b. Beth bynnag, mae'n hanfodol bod cofnodion o'r trafodaethau. Os yw'r mater yn parhau yn gyfrinachol yna dylai'r holl bapurau cefndir gael eu cadw mewn ffeil gyfrinachol. Yn wahanol i brif gynghorau nid oes dyletswydd i ddatgelu adroddiadau neu ddogfennau cefndir oni bai bod y rhain wedi'u cynnwys yn benodol yn y cofnodion.

## 1.9 Y Wasg

Mae'r Ddeddf yn gofyn bod gan y wasg gyfleusterau rhesymol ar gyfer llunio adroddiadau. Serch hynny, maen nhw'n mynychu'r cyfarfodydd fel aelodau o'r cyhoedd yn unig. Nid oes ganddynt hawl ar wahân i fynychu a rhaid iddynt adael os yw'r cyhoedd wedi'u heithrio.

## 2.0 Gorchmynion Sefydlog a chynnal y cyfarfod

### Yr Arfer

a. Hysbysiad o Gynnig. Rhaid i'r holl faterion o bwys a fydd yn cael eu cyflwyno i'w trafod gan y cyngor gael eu cyflwyno fel eitemau ar wahân ar agenda'r cyngor. Rhaid nodi busnes i'w trafod yn y cyfarfod mewn ffordd fel bod y rheini sy'n derbyn yr agenda yn gallu adnabod y materion y mae disgwyl eu trafod.

b. Mae hawl gan unrhyw aelod i gyflwyno mater i'w drafod yng nghyfarfod y cyngor trwy gyflwyno cynnig ar yr amod nad yw'n <u>amlwg</u> yn anghyfreithlon neu'n ddifrïol. Rhaid rhoi hysbysiad ysgrifenedig i eitem gael ei chynnwys ar yr agenda. Pan fydd un yn cael ei chyflwyno nid oes hawl gan y cadeirydd na'r clerc i wrthod ei gosod ar yr agenda.

c. Rheolau Trafod: Pan fydd cynnig wedi'i basio a bod nifer o ddiwygiadau, rhaid pleidleisio ar bob un diwygiad yn y drefn y cawsant eu cynnig: os yw'n aflwyddiannus dylid altro'r cynnig gwreiddiol, rhaid wedyn ei roi i bleidlais.

d. Unwaith y mae mater wedi'i roi i bleidlais a phenderfyniad wedi'i wneud ni all y cyngor, yn ystod y cyfarfod hwnnw, gael trafodaeth bellach na newid y penderfyniad. Os yw'r penderfyniad yn effeithio ar fuddion trydydd parti e.e. dyfarnu cytundeb, dim ond gyda chytundeb y trydydd parti y gellir newid

penderfyniad y cyngor. Yn amodol ar y ddau gymhwyster hynny gallai'r cyngor ar unrhyw bryd ddiddymu neu newid penderfyniad. Ni ellir trafod penderfyniad ymhellach am chwe mis.

**2.1 Llanw swydd wag**

Ble y mae mwy na dau berson wedi'u henwebu am swydd i'w llanw gan y cyngor (e.e. fel cynrychiolydd ar gorff arall) rhaid i'r person llwyddiannus gael mwyafrif pleidleisiau llwyr. Nid yw pedair pleidlais dros A, tair pleidlais dros B, dwy bleidlais dros C ac un bleidlais dros D yn golygu bod A yn cael ei ethol. Rhaid i'r unigolyn â'r nifer isaf o bleidleisiau gael ei daro oddi ar y rhestr a rhaid pleidleisio o'r newydd rhwng yr ymgeiswyr sy'n weddill hyd nes y bydd pleidlais derfynol rhwng y ddau ymgeisydd olaf.

**2.2 Codi 'mater o drefn'**

Codi 'mater o drefn' yn ôl pob tebyg yw'r dull a ddefnyddir amlaf (a'i gamddefnyddio) o dorri ar draws gweithgaredd y cyngor. Yr unig ffordd o'i ddefnyddio'n gywir yw er mwyn tynnu sylw at doriad neu doriad posibl i'r Gorchymyn Sefydlog. Mae angen i'r aelod nodi'n benodol y Gorchymyn Sefydlog o bryder a ni ddylid caniatáu iddo wneud araith. Dylai'r cadeirydd farnu a yw mater o drefn yn ddilys a bod camau yn cael eu cymryd.

2.3 Ni ddylid caniatáu trafodaeth ac mae penderfyniad y cadeirydd yn derfynol.

**2.4 Ymddygiad Afreolus**

Mae hawl a dyletswydd ar y cadeirydd i reoli gweithgaredd a rhaid parchu eu dyfarniad. Gellir symud aelodau o'r cyhoedd sy'n gwrthod cydymffurfio ar gais y cadeirydd, er, os yw'n bosibl dylai geisio cefnogaeth y cyngor. Gellir tawelu neu symud aelodau y mae eu camymddygiad yn rhwystro busnes y cyngor ar gais y cadeirydd ond dim ond gyda chymeradwyaeth y cyngor. Os yw popeth arall yn methu fe allai'r cadeirydd, ar ei benderfyniad ei hun, ohirio neu wahardd y cyfarfod. Os byddant yn gwneud hyn rhaid iddynt gyhoeddi pryd a ble y bydd y cyfarfod yn ailddechrau.

**2.5 Torri'r gyfraith ac arfer**

a. Mae unrhyw doriad difrifol ar ddarpariaethau statudol e.e. methu rhoi tridiau o rybudd neu ble nad oes cworwm, yn golygu bod y cyfarfod yn ddi-rym ac nid oes unrhyw rym i'r penderfyniadau. Mae unrhyw un sy'n gweithredu ar y penderfyniadau annilys hynny yn gwneud hynny heb awdurdod ac yn ennyn atebolrwydd personol dros unrhyw golled i arian cyhoeddus.

b. Ystyrir toriad difrifol yn un sy'n cyfaddawdu'r broses ddemocrataidd (megis diffyg cworwm) yn hytrach na methiant i ddilyn rheolau gweinyddol (e.e. cymeradwyo'r cofnodion fel yr eitem busnes cyntaf)

c. Ar gyfer mân doriadau o'r rheolau statudol a methiant i ddilyn 'arfer' ni cheir cosb benodol yn y Ddeddf Llywodraeth Leol ac ni all yr ombwdsmon ymchwilio i faterion cyngor lleol.

d. Mae ymddygiad holl awdurdodau lleol yn agored i adolygiad barnwrol gan yr Uchel Lys a fydd yn ystyried y ffordd y mae cyngor wedi gweithredu er ni fydd yn ystyried teilyngdod unrhyw benderfyniad y mae wedi'i wneud. Mae gan y llysoedd ddisgresiwn ac ni fydd yn ystyried achosion oni bai bod budd cyhoeddus difrifol a sylweddol. Yn sicr mae'n bosibl i'r Uchel Lys ymyrryd ble e.e. mae'r cadeirydd yn dangos tuedd gyson ac yn camddefnyddio'i awdurdod, hyd yn oed os yw'n cael ei gefnogi gan fwyafrif y cyngor neu ble y

mae'r cyngor yn fwriadol ac yn gyson yn anwybyddu rheolau a dderbynnir yn gyffredin.

e. Awgryma profiad na ddylai cyfarfod fyth barhau am fwy na dwy awr heb egwyl.

**2.6 <u>Cynllunio</u>**

O dan amgylchiadau eithriadol, gellir dirprwyo pwerau i'r clerc a'r cynghorau perthnasol yn ymwneud â cheisiadau cynllunio sydd angen sylw cyn cyfarfod misol y cyngor.

**2.7 <u>Gwefan</u>**

**2.7.1** Bydd hysbysiadau cyhoeddus ynglŷn ag unrhyw gyfarfod cyhoeddus yn cael eu huwchlwytho i ardal benodol o wefan y cyngor yn unol â'r un rheolau sy'n cael eu hamlinellu yng nghymal 1.2 (vi) y cyfansoddiad hwn.

**2.7.2** Cyhoeddir cofnodion y cyfarfod blaenorol o fewn 14 diwrnod i ddyddiad y cyfarfod yn dilyn proses ddilysu gan y cadeirydd, yr is-gadeirydd a'r clerc.

**2.8** Rhaid anfon cofnodion y cyfarfod at yr holl gynghorwyr o fewn 7 diwrnod i ddyddiad y cyfarfod.

# RHEOLIADAU ARIANNOL CYNGOR CYMUNED TROEDYRAUR

## 1. CYFFREDINOL

1.1 Bydd y rheoliadau ariannol hyn yn llywodraethu cynnal trafodion ariannol y cyngor a dim ond trwy benderfyniad y cyngor y gellir eu diwygio neu'u hamrywio.

1.2 Y Clerc fydd y swyddog ariannol cyfrifol (RFO).

1.3 Y swyddog ariannol cyfrifol (RFO) o dan gyfarwyddyd polisi'r cyngor fydd yn gyfrifol am weinyddiaeth gywir ar faterion ariannol y cyngor.

1.4 Bydd y RFO yn gyfrifol am gynhyrchu gwybodaeth ar reolaeth ariannol.

## 2. AMCANGYFRIFON BLYNYDDOL

2.1 Bydd y Cyngor yn cyflwyno cynnig yng nghyswllt costau refeniw a chyfalaf ar gyfer y flwyddyn ganlynol yn ddim hwyrach na dechrau mis Ionawr bob blwyddyn.

2.2 Bydd amcangyfrifon manwl o dderbynebau a thaliadau ar gyfer y flwyddyn yn cael eu paratoi bob blwyddyn gan y RFO.

2.3 Bydd y Cyngor yn adolygu'r amcangyfrifon, yn ddim hwyrach na chyfarfod Ionawr bob blwyddyn a bydd yn gosod y Praesept i'w godi ar gyfer y flwyddyn ariannol ddilynol. Bydd y RFO yn rhoi copi o'r amcangyfrifon cymeradwy i bob aelod.

2.4 Bydd y cyllidebau blynyddol yn ffurfio sylfaen i'r rheolaeth ariannol ar gyfer y flwyddyn ddilynol.

## 3. RHEOLAETH GYLLIDEBOL

3.1 Gellir gwario ar eitemau refeniw hyd at y symiau sydd wedi'u cynnwys ym mhob pennawd cyllideb cymeradwy.

3.2 Ni ellir mynd i wariant nad oes modd ei dalu o'r swm a nodir o dan y pennawd cyllideb refeniw priodol oni bai bod hawl trosglwyddo arian wedi'i gymeradwyo gan y cyngor.

3.3 Bydd y RFO yn rhoi datganiad o dderbynebau a thaliadau cyfredol i'r cyngor yn rheolaidd o dan bob pennawd o'r gyllideb gymeradwy, gan gymharu union wariant yn erbyn gwariant arfaethedig.

3.4 Gall y Clerc fynd i wariant ar ran y cyngor ynghyd â dau o'r llofnodwyr, sy'n angenrheidiol i ymgymryd ag unrhyw waith atgyweirio, amnewid neu waith arall, sydd yn waith mor frys bod yn rhaid ei wneud ar unwaith. Pa un a oes unrhyw ddarpariaeth gyllidebol ar gyfer y gwariant, yn amodol ar gyfyngiad o £50. Bydd y clerc yn adrodd am y camau hynny i'r cyngor cyn gynted â phosibl ar ôl hynny.

3.5 Ble y mae gwariant yn cael ei wneud yn unol â rheoliad 3.4 uchod ac na all y swm gofynnol gael ei dalu o arbedion a wneir yn rhywle arall o fewn cyllideb gymeradwy'r cyngor, bydd yn amodol ar ddarpariaethau amcangyfrif atodol a gymeradwyir gan y cyngor.

3.6 Ni fydd darpariaethau heb eu gwario yn y gyllideb refeniw yn cael eu dwyn ymlaen i'r flwyddyn ddilynol.

3.7 Ni fydd unrhyw wariant yn cael ei wario mewn perthynas ag unrhyw brosiect cyfalaf, na chytundeb yn cael ei lunio na thendr yn cael ei dderbyn sy'n cynnwys gwariant ar gyfrif cyfalaf. Oni bai bod y cyngor yn fodlon ei fod

awdurdodiad, ac yn eu codio i'r pennawd gwariant priodol. Bydd y RFO yn cymryd pob cam posibl i dalu'r holl anfonebau a gyflwynir, ac sydd yn gywir, o fewn 30 diwrnod i'w derbyn.

7. **TALU CYFLOGAU A THALIADAU**

Bydd cyflog y clerc yn cael ei dalu trwy siec yn fisol, yn dilyn graddfa gyflog a argymhellir gan NALC a SLCC. Bydd y clerc yn datgan y cyflog hwn ar ei ffurflen dreth, ac yn derbyn llythyr cadarnhau gan Gyllid y Wlad yn ymwneud â'r weithdrefn hon.

8. **BENTHYCIADAU A BUDDSODDIADAU**

8.1 Bydd yr holl fenthyciadau a buddsoddiadau yn cael eu trafod gan RFO yn enw'r cyngor, a byddant yn cael eu gosod am gyfnod o amser penodol yn unol â pholisi'r cyngor. Dylai newidiadau i fenthyciadau a buddsoddiadau gael eu hadrodd i'r cyngor cyn gynted â phosibl.

8.2 Bydd holl fuddsoddiadau arian o dan reolaeth y cyngor yn enw'r cyngor.

8.3 Bydd yr holl fenthyciadau yn cael eu gwneud yn enw'r cyngor.

8.4 Bydd holl dystysgrifau'r buddsoddiadau a dogfennau eraill yn ymwneud â hwy yn cael eu cadw yng ngofal y RFO.

9. **INCWM**

9.1 Cyfrifoldeb y RFO fydd casglu pob swm sy'n ddyledus i'r cyngor neu o dan ei oruchwyliaeth.

9.2 Rhaid hysbysu'r RFO o fanylion y taliadau i'w gwneud am waith sydd wedi'i wneud, gwasanaethau sydd wedi'u darparu neu nwyddau a gyflenwyd a'r RFO a fydd yn gyfrifol yn y pendraw am gasglu'r holl gyfrifon sy'n ddyledus i'r cyngor.

9.3 Bydd y cyngor yn adolygu'r holl ffioedd a thaliadau yn flynyddol, yn dilyn adroddiad y clerc.

9.4 Bydd y RFO yn bancio'r holl symiau a dderbynnir ar ran y cyngor.

9.5 Ni fydd sieciau personol yn cael eu newid am arian a gedwir ar ran y cyngor.

10. **ARCHEBION AM WAITH, NWYDDAU A GWASANAETHAU**

10.1 Mae pob swyddog yn gyfrifol am sicrhau gwerth am arian bob amser. Rhaid i swyddog sy'n codi archeb swyddogol sicrhau hyd y gellir ac yn ymarferol bod y telerau gorau sydd ar gael yn cael eu sicrhau yng nghyswllt trafodyn ariannol.

10.2 Am wariant o £500.00 neu lai bydd gan y cyngor bŵer gweithredol.

11. **YSWIRIANT**

11.1 Bydd y RFO yn gweithredu pob yswiriant ac yn trafod unrhyw hawliadau ar yswiriwr y cyngor.

11.2 Bydd y RFO yn cael ei hysbysu o unrhyw golled, atebolrwydd neu ddifrod o unrhyw ddigwyddiad sy'n debygol o arwain at hawliad.

11.3 Bydd y RFO ynghyd â'r cyngor yn adolygu'r yswiriant a'r risgiau yn flynyddol.

12. **ADOLYGU RHEOLIADAU ARIANNOL**

12.1 Bydd y swyddog ariannol h.y. y clerc yn rhoi diweddariadau ariannol yn chwarterol i'r cyngor.

12.2 Dyletswydd y cyngor fydd adolygu rheoliadau ariannol y cyngor yn flynyddol a gwneud unrhyw newidiadau y mae'r cyngor yn eu hystyried yn ofynnol.

wedi'i gynnwys yn y rhaglen gyfalaf dreigl a bod yr arian cyfalaf angenrheidiol ar gael, neu y gellir sicrhau'r gymeradwyaeth benthyca ofynnol.

3.8 Bydd yr holl weithiau cyfalaf yn cael eu gweinyddu yn unol â gorchmynion sefydlog a rheoliadau ariannol y cyngor yn ymwneud â chytundebau.

## 4. CYFRIFO AC ARCHWILIO

4.1 Bydd holl weithdrefnau cyfrifo ac adroddiadau ariannol y Cyngor yn cael eu pennu gan y RFO fel sy'n ofynnol gan y Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio 2003 a 2005 fel y'u diwygiwyd ynghyd ag unrhyw ddiwygiadau a wnaed yn ystod y flwyddyn honno.

4.2 Bydd y RFO yn gyfrifol am gwblhau datganiadau ariannol blynyddol y Cyngor cyn gynted â phosibl ar ôl diwedd y flwyddyn ariannol ac yna'n eu cyflwyno a'u hadrodd ar hynny i'r Cyngor.

4.3 Bydd y RFO yn gyfrifol am gwblhau Cyfrifon y Cyngor sydd wedi'u cynnwys yn y Datganiad Blynyddol (sy'n cael eu cyflenwi gan Archwilydd penodedig o bryd i'w gilydd gan y Comisiwn Archwilio)

4.4 Bydd y RFO yn gyfrifol am gynnal system ddigonol ac effeithiol o archwiliad mewnol o weithrediadau cyfrifo, ariannol ac eraill y cyngor yn unol â rheoliad. Bydd unrhyw swyddog neu aelod o'r cyngor, ar gais RFO, yn darparu dogfennau o'r fath o'r cyngor sy'n perthyn i'w cofnodion cyfrifo ac eraill, sydd ym marn y RFO yn angenrheidiol at ddiben yr archwiliad, a bydd yn rhoi gwybodaeth o'r fath i RFO ac esboniad pam mae'r RFO yn ystyried ei fod yn angenrheidiol at y diben hwnnw.

4.5 Bydd yr Archwilydd Mewnol yn cynnal y gwaith sy'n ofynnol gan y RFO, neu gan y Cyngor, gyda'r bwriad o gwblhau yn foddhaol Adran Adroddiad Datganiad Ariannol yr Archwilydd Mewnol fel y crynhoir yn flynyddol gan y Comisiwn Archwilio. Bydd yr Archwilydd Mewnol, a fydd yn gymwys ac yn annibynnol ar weithrediadau'r Cyngor, yn adrodd i'r Cyngor yn ysgrifenedig yn rheolaidd gydag o leiaf un adroddiad blynyddol yng nghyswllt pob blwyddyn ariannol.

4.6 Bydd y RFO yn gwneud trefniadau am gyfle i arolygu'r cyfrifon.

4.7 Bydd y RFO cyn gynted â phosibl, yn dwyn i sylw'r holl gynghorwyr unrhyw ohebiaeth neu adroddiad gan yr Archwilydd Mewnol/Allanol, oni bai bod yr ohebiaeth yn ohebiaeth weinyddol yn unig.

## 5. TREFNIADAU BANCIO A SIECIAU

Bydd y RFO yn gwneud trefniadau bancio'r cyngor a byddant yn cael eu cymeradwyo gan y cyngor. Bydd un cyfrif cyfredol yn cael ei gynnal yn y banc, Cyfrif Wrth Gefn Busnes a Chyfrif Adnau Cyfalaf yn National Westminster Bank plc, Castellnewydd Emlyn.

## 6. TALIADAU O GYFRIFON

6.1 Bydd yr holl daliadau yn cael eu gwneud trwy siec i'w dynnu o fanc y cyngor, a bydd angen llofnod dau aelod, ni ddylai'r cadeirydd fod yn un o'r aelodau hyn.

6.2 Bydd yr holl anfonebau i'w talu yn cael eu harchwilio, eu gwirio a'u hardystio gan y swyddog sy'n codi'r archebu. Cyn ardystio anfoneb, bydd y swyddog yn bodloni ei hun bod y gwaith, y nwyddau neu'r gwasanaethau y mae'r anfoneb yn perthyn iddo wedi'u derbyn, eu gwneud, eu harchwilio a'u cymeradwyo.

6.3 Bydd anfonebau wedi'u hardystio'n gywir yn cael eu trosglwyddo i'r RFO a fydd yn eu harchwilio mewn perthynas â chywirdeb rhifyddol ac

Dylid caniatáu recordio, ffilmio a darlledu ym mhob cyfarfod cyhoeddus.

Ni ellir ffilmio neu recordio cyfarfodydd neu rannau o gyfarfodydd y mae'r wasg a'r cyhoedd wedi'u gwahardd ohonynt.

Cyn cyfarfodydd yn ystafelloedd swyddogol y Cyngor, gellir ymgymryd â ffilmio a recordio o lawr y cyfarfod ond rhaid rhoi'r gorau iddo a symud yr holl gyfarpar ffilmio a recordio yn ddim hwyrach na 10 munud cyn dechrau'r cyfarfod.

Yn ystod cyfarfodydd yn ystafelloedd cyfarfod swyddogol y Cyngor, dim ond o un lle dynodedig penodol y gall darlledwyr ffilmio. Bydd y lle dynodedig yn cael ei gadw i ddarlledwyr ac ni fydd ar gael i'r cyhoedd.

Mewn rhai lleoliadau, bydd ardaloedd dynodedig ble y gall darlledwyr ffilmio ohonynt yn ôl cyfarwyddyd y Cyngor a dim ond o'r ardaloedd dynodedig hynny y gellir ffilmio.

Caniateir aelodau'r cyhoedd i ffilmio neu recordio cyfarfodydd a chaniateir mynediad iddynt mewn modd nad yw'n amharu a hynny o'r ardaloedd cyhoeddus yn unig.

Caniateir defnyddio offer recordio digidol a chyfryngau cymdeithasol, er enghraifft Twitter, blogio neu recordio sain cyhyd â'i fod yn cael ei wneud mewn modd nad yw'n amharu.

Gwaherddir ffilmio neu recordio aelodau'r cyhoedd o dan amgylchiadau nad ydynt yn gwneud sylwadau i'r cyfarfod a bydd y Cyngor yn cymryd unrhyw gamau y mae'n eu hystyried yn briodol yn erbyn unrhyw un y gwelir ei fod yn torri'r cyfyngiad hwn.

Mae gan Gadeirydd y cyfarfod, neu unrhyw gynrychiolydd Cyngor o'r fath sydd wedi'i enwi gan y Cadeirydd, y gallu i roi stop ar gyfarfod a chymryd camau priodol os yw unrhyw un yn torri'r egwyddorion hyn neu'n os ystyrir ei fod yn ffilmio neu'n recordio mewn modd sy'n amharu.

Mae unrhyw berson neu sefydliad sy'n dewis ffilmio, recordio neu ddarlledu unrhyw gyfarfod y Cyngor, ei Gabinet neu bwyllgorau yn gyfrifol am unrhyw hawliadau neu atebolrwydd arall sy'n deillio ohonynt yn gwneud hynny ac wrth ddewis ffilmio, recordio neu ddarlledu trafodion maen nhw'n derbyn bod gofyn iddynt indemnio'r Cyngor, ei aelodau a'i swyddogion mewn perthynas ag unrhyw hawliadau neu atebolrwydd o'r fath.

Bydd y Cyngor yn arddangos y gofynion ffilmio, recordio a darlledu yn ei leoliadau cyfarfod ac ystyrir bod y rheini sy'n ymgymryd â'r gweithgareddau hyn wedi'u derbyn pa un a ydynt wedi'u darllen ai peidio.

Bydd y Cyngor yn cyhoeddi'r canllawiau ar ffilmio, recordio a darlledu cyfarfodydd ar ei wefan.